

Polisi Amddiffyn Oedolion

Cymeradwyaeth	
Cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad: 14/01/2020
Gweithredu'r Polisi	Dyddiad: 01/02/2020
Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb:	Dyddiad: 14/01/2020
Fersiwn	F1.0

Rheoli Fersiynau			
Rhif y Fersiwn	Newidiadau Allweddol	Cytunwyd gan/dyddiad	Dyddiad Cyhoeddi
F1.0	Polisi Newydd	Y Bwrdd Gweithredol	29/11/11

Cynnwys

Rhoi gwybod am oedolyn y credir eu bod mewn perygl.....	4
Diffiniad o oedolyn mewn perygl.....	4
Bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch neu amheuaeth o drosedd.....	4
Atgyfeirio oedolyn mewn perygl.....	5
Sut i wneud atgyfeiriad.....	5
Barn yr unigolyn am adroddiad amddiffyn oedolyn.....	5
Materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth.....	6
Hunan-esgeulustod.....	6
Pryderon diogelu a nodir yn ystod asesiad.....	6
Sgrinio.....	6
Atgyfeiriwr yn methu ag ymateb i gyswllt i gwblhau sgriniad.....	7
Gwerthusiad cychwynnol.....	7
A yw dyletswydd adran 126 i wneud ymholiadau ar waith?.....	7
Penodi'r ymarferydd arweiniol.....	7
Trafodaeth neu gyfarfod strategaeth.....	8
Ymholiadau adran 126.....	8
Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu.....	8
Monitro ymholiadau adran 126.....	9
Amddiffyn ar unwaith.....	9
Anghenion gofal a chymorth eraill.....	9
Penderfynu pa gamau sydd eu hangen i wneud unigolyn yn ddiogel.....	9
Trafodaeth neu gyfarfod strategaeth.....	10
Cynllun gofal a chymorth.....	10
Cynhadledd amddiffyn oedolion.....	11
Adolygiadau.....	11
Cau achos.....	11
Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolyn.....	11
Pwrpas Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolyn.....	11
Pryd i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn.....	11
Swyddog awdurdodedig.....	12
Os nad oes swyddog awdurdodedig ar gael.....	12
Sut i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn.....	12
Camau eraill sy'n dilyn ymholiadau diogelu.....	12
Gwrthod cynllun gofal a chymorth – gallu meddyliol ac uwchgyfeirio.....	13
Camdriniwr honedig gyda diffyg gallu meddyliol.....	13
Ansawdd ac archwilio.....	13
Uwchgyfeirio materion i reolwyr.....	14
Cwynion.....	15
Gwelliant parhaus.....	15
Fframwaith gwella Gofal Cymdeithasol i Oedolion.....	15
Grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Sir y Fflint a Wrecsam.....	15
Adolygiad Ymarfer Oedolion.....	16
Is-grŵp Rhanbarthol Adolygiadau Ymarfer Oedolion.....	16
Cyhuddiadau a phryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swydd gyfrifol.....	16
Atodiad 1 – Cefndir y polisi.....	17
Deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.....	17

Gweithdrefnau Diogelu Cymru	17
Dyletswyddau Statudol	17
Dyletswydd i ymholi	17
Hanfodion ymholiadau diogelu	18
Egwyddorion Cyffredinol	18
Dull cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	18
Eiriolaeth	19
Penderfyniadau Deallus Gyda Chefnogaeth	20
Gorchmynion Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion (APSO)	20
Deddf Galluedd Meddyliol 2005	20
Gofynion y Gymraeg	21
Rhannu Gwybodaeth	21
Cyfrinachedd a Chydsyniad	21
Chwythu'r chwiban a rhannu pryderon	22
Gwasanaethau Hygyrch	22
Gwybodaeth i'r cyhoedd	22
Atodiad 2 – Gwybodaeth a ffactorau wrth wneud ymholiadau diogelu	23
Gwybodaeth i gael ei chasglu wrth wneud ymholiadau diogelu	23
Ffactorau i'w hystyried wrth wneud ymholiadau diogelu	23
Atodiad 3 – Diffiniad Partner Perthnasol	24

Rhoi gwybod am oedolyn y credir eu bod mewn perygl

Diffiniad o oedolyn mewn perygl

Unigolyn sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol.¹

Yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod
 Angen gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion ai peidio)
 O ganlyniad, ni all ei (h)amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod
 neu'r perygl o hynny.

Bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch neu amheuaeth o drosedd

Rhowch wybod am bryderon ynghylch perygl uniongyrchol neu amheuaeth
 bod trosedd wedi'i chyflawni ar unwaith ac yn uniongyrchol i'r heddlu neu'r
 gwasanaeth ambiwlans os yw'r unigolyn angen sylw meddygol ar frys.

¹ adran 126(1) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Atgyfeirio oedolyn mewn perygl

Gwnewch atgyfeiriad diogelu i Ofal Cymdeithasol Wrecsam pan mae rheswm dros amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl a'i bod yn ymddangos eu bod yn ardal Wrecsam.

Gall unrhyw un atgyfeirio camdriniaeth neu esgeulustod yn uniongyrchol at y gwasanaethau cymdeithasol, ond mae dyletswydd ar asiantaethau sydd wedi'u diffinio fel partneriaid perthnasol i Wrecsam gan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Lles i atgyfeirio camdriniaeth.²

Rhannwch bryderon yn ymwneud ag ansawdd gofal a'r gefnogaeth mewn lleoliad sy'n cael ei reoleiddio gyda'r cyrff rheoleiddio perthnasol.

Sut i wneud atgyfeiriad

Gall y cyhoedd wneud atgyfeiriadau fel hyn:

- Ffôn 01978 298286 / 8208
- E-bost – ast@wrexham.gov.uk
- Post – Tîm Diogelu Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adeiladau'r Goron, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG

Rhaid i weithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth cofrestredig ddefnyddio *Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn Mewn Perygl Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru* a'i chwblhau mor llawn â phosib'.³

Mae *Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn Mewn Perygl Gogledd Cymru* ar gael ar wefannau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Os nad oes posib' cwblhau'r *Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn Mewn Perygl* yn llawn o fewn un diwrnod gwaith o ddod o hyd i'r pryder, dylid cyflwyno'r atgyfeiriad, ond bydd gofyn i'r atgyfeiriwr gwblhau'r ffurflen yn llawn yn rhan o'r ymholiad diogelu.

Rhaid i bartneriaid perthnasol rannu gwybodaeth wrth arfer eu dyletswydd ddiogelu oni bai y byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny.

Atgyfeiriwch droseddau tybiedig at Ofal Cymdeithasol Wrecsam a'r heddlu gyn gynted â phosib' ac o fewn un diwrnod gwaith o ddod o hyd i bryder. Os nad yw'r atgyfeiriwr wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Oedolion ar ast@wrexham.gov.uk.

Barn yr unigolyn am adroddiad amddiffyn oedolyn

Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod person hŷn, eiddil neu anabl yn oedolyn mewn perygl. Efallai fod oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth yn gallu eu hamddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Nid yw oedolyn sy'n gallu ei (h)amddiffyn ei hun yn oedolyn mewn perygl.

² adran 128 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweler Atodiad 3 am ddiffiniad partneriaid perthnasol.

³ Mae hon wedi'i datblygu'n rhanbarthol i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ymateb yn amserol i bryderon diogelu ac effeithiolrwydd yr ymholiad diogelu.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y dylid atgyfeirio unigolyn heb eu caniatâd. Lle bo modd, heb beryglu'r oedolyn mewn perygl, trafodwch atgyfeiriad diogelu i Ofal Cymdeithasol Wrecsam gydag o neu hi ymlaen llaw.

Caniatâd yr oedolyn ddylai bennu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i bryder neu honiad am gamdriniaeth. Dylai gweithwyr proffesiynol gofnodi a parchu dymuniadau ac ymreolaeth yr oedolyn, ond gallant anwybyddu diffyg caniatâd i atgyfeirio, gan gynnwys yn yr enghreifftiau canlynol.

- Nid oes gan yr oedolyn y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau perthnasol
- Mae perygl mawr i iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn
- Gallai eraill fod mewn perygl
- Mae amheuaeth fod trosedd wedi ei chyflawni neu mae trosedd wedi ei chyflawni
- Mae pryderon yn ymwneud â methiant mewn gofal neu dorri rheoliad neu god ymddygiad proffesiynol
- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, byrddau iechyd lleol neu asiantaeth arall yn cefnogi neu'n gweithio gydag oedolyn sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan fater neu ddigwyddiad sydd wedi achosi niwed
- Credir mai'r unigolyn yw achos y perygl oherwydd rhywbeth maent wedi ei wneud neu na wnaethant ei wneud

Materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth

Cyfeiriwch faterion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth at yr awdurdodau rheoleiddio, awdurdodau contractio a rheolwyr y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae pryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth yn golygu bod ymateb diogelu yn briodol.

Defnyddiwch *Ddogfen Trothwy Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru* i bennu pryd mae pryderon am wasanaeth yn uwch na'r lefel arferol o bryderon am ansawdd gwasanaeth a phryd y dylid atgyfeirio fel mater diogelu.

Hunan-esgeulustod

Defnyddiwch *Bolisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru i Gefnogi Pobl sy'n Hunan-esgeuluso* i ymateb yn arferol i hunan-esgeulustod. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd difrifoldeb a chymhlethdod yr hunan-esgeulustod yn golygu y byddai atgyfeiriad diogelu yn briodol.

Defnyddiwch *Ddogfen Trothwy Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru* i bennu pryd y dylid atgyfeirio hunan-esgeulustod fel mater diogelu.

Pryderon diogelu a nodir yn ystod asesiad

Gwnewch atgyfeiriad diogelu fel arfer os yw'n ymddangos mewn asesiad bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl.

Sgrinio

Mae Swyddogion Cefnogi Diogelu yn y Tîm Diogelu Oedolion yn sgrinio atgyfeiriadau. Monitrowch gyfeiriad e-bost ast@wrexham.gov.uk, atgyfeiriadau at y Tîm Diogelu Oedolion yn RAISE, post at y tîm ac ymateb i alwadau ffôn neu ymweliadau â'r tîm yn ddyddiol.

Os bydd galwad ffôn gan y cyhoedd, agorwch dempled atgyfeiriad diogelu a nodi manylion yr atgyfeiriwr gan ddefnyddio'r templed fel canllaw.

Os bydd e-bost neu ohebiaeth drwy'r post gan y cyhoedd, agorwch dempled atgyfeiriad diogelu a thrawsgrifio'r wybodaeth a roddir. Yna cysylltwch â'r atgyfeiriwr dros y ffôn a nodi'r manylion fel uchod.

Os bydd gweithiwr proffesiynol neu bartner perthnasol yn cysylltu dros y ffôn, cyfeiriwch yr adroddwr at y Ffurflen Atgyfeirio Oedolion Mewn Perygl a'r polisi diogelu a gofyn iddynt gwblhau'r templed yn llawn a'i gyflwyno o fewn terfynau amser y polisi.

Os yw drwy dempled atgyfeiriad diogelu, gwiriwch hwnnw i sicrhau ei fod yn gyflawn. Os nad yw'n gyflawn, cysylltwch â'r atgyfeiriwr i ofyn iddynt ei gwblhau'n llawn. Agorwch ymholiad diogelu ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, cwblhau'r sgrîn ymholiad ac atodi'r atgyfeiriad diogelu.

Atgyfeiriwr yn methu ag ymateb i gyswllt i gwblhau sgriniad

Os nad yw'r atgyfeiriwr yn ymateb, gwnewch nodyn achos o'r ymgais i gysylltu. Gadewch neges os oes modd, gan roi manylion cyswllt a gofyn i'r atgyfeiriwr ffonio'n ôl ar frys. Ffoniwch eto yn ddiweddarach, ar wahanol adegau yn y dydd, gan gadw nodiadau achos o bob ymgais i gysylltu lle na cheir ymateb.

Os nad oes cyswllt wedi'i wneud ar ôl dau ddiwrnod, uwchgyfeiriwch yr achos.

Gwerthusiad cychwynnol

Mae rheolwyr diogelu⁴ yn y Tîm Diogelu Oedolion yn cynnal gwerthusiadau cychwynnol.

Rheolwyr cynorthwyol a rheolwr y Tîm Diogelu Oedolion ne'r pennaeth gwasanaeth yw rheolwyr diogelu. Yn ôl y gofyn, gallai rheolwr y Tîm Diogelu Oedolion neu'r pennaeth gwasanaeth ddynodi rheolwyr eraill yn rheolwyr diogelu.

Mae rheolwyr diogelu'n monitro adroddiad atgyfeirio'r Tîm Diogelu Oedolion ar gyfer atgyfeiriadau newydd yn ddyddiol.

A yw dyletswydd adran 126 i wneud ymholiadau ar waith?

Mae rheolwyr diogelu'n penderfynu a yw'r atgyfeiriad yn berthnasol i ddyletswydd adran 126 i wneud ymholiadau. Mae'r trothwy i weithredu dyletswydd adran 126 yn isel a'r unig adeg lle nad oes rhaid gwneud ymholiadau adran 126 yw pan mae'n amlwg nad yw'r unigolyn yn cyfateb i ddiffiniad oedolyn mewn perygl.

Os yw'r rheolwyr diogelu'n penderfynu nad yw adran 126 yn berthnasol, rhaid rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr.

Y rheolwr diogelu sy'n penderfynu pa ymholiadau adran 126 y dylid eu gwneud ac sy'n penodi'r ymarferydd arweiniol.

Os nad yw'r atgyfeiriwr yn cytuno â'r penderfyniad hwn, uwchgyfeiriwch yr achos. Dylai'r atgyfeiriwr hefyd gael gwybod y gall o neu hi wneud cwyn.

Penodi'r ymarferydd arweiniol

Y rheolwr diogelu sy'n penderfynu pa ymholiadau diogelu y dylid eu gwneud, penodi ymarferydd arweiniol ac chytuno ar gyfnod disgwyliedig i

⁴ Mae rheolwyr diogelu'n gweithredu fel cydlynwyr arweiniol ar gyfer diogelu

gwblhau ymholiadau adran 126. Fel arfer, bydd hyn o fewn 7 diwrnod i dderbyn yr atgyfeiriad. Bydd y rheolwr diogelu hwn yn cofnodi yn y Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu a ddarperir i'r ymarferydd arweiniol. Bydd yr ymarferydd arweiniol yn cael ei benodi fel a ganlyn.

- Gweithiwr cymdeithasol o fewn y Tîm Diogelu Oedolion pan na adwaenir yr unigolyn mewn perygl neu os ydynt yn agored i gael adolygiad
- Gweithiwr cymdeithasol mewn tîm arall pan mae'r oedolyn mewn perygl yn agored i weithiwr o fewn y tîm – pan mae'r atgyfeiriad yn cael ei wneud yn dilyn neu fel rhan o asesiad, y gweithiwr hwnnw fydd yr ymarferydd arweiniol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall, therapydd galwedigaethol, nyrs seiciatryddol cymunedol ac ati)
- Partner perthnasol pan mae natur ymholiadau adran 126 yn golygu fod gan asiantaeth arall fwy o arbenigedd neu brofiad proffesiynol perthnasol neu ei bod mewn gwell sefyllfa i wneud yr ymholiadau
- Darparwr gwasanaeth pan mae natur ymholiadau adran 126 yn golygu fod gan y darparwr wybodaeth fwy priodol am yr oedolyn mewn perygl neu ei fod mewn gwell sefyllfa i wneud yr ymholiadau diogelu
- Sefydliad trydydd sector neu gorff annibynnol arall os yw'n briodol

Trafodaeth neu gyfarfod strategaeth⁵

Gall trafodaeth neu gyfarfod strategaeth gael ei gynnal i gynllunio ymholiadau adran 126 os oes angen. Bydd y terfyn amser arferol o 7 diwrnod ar gyfer ymholiadau adran 126 yn dal i fod mewn grym.

Ymholiadau adran 126

Mae ymholiadau adran 126 yn cael eu gwneud gan yr ymarferydd arweiniol. Pwrpas ymholiadau adran 126 yw casglu gwybodaeth ddigonol am anghenion diogelu'r unigolyn i bennu a yw o neu hi'n oedolyn mewn perygl ac os yw, a oes angen unrhyw gamau i ddiogelu'r unigolyn, pa gamau ddylai'r rheini fod a phwy neu ba asiantaeth ddylai eu rhoi ar waith.

Yn unol â'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae ymholiadau adran 126 fel arfer yn cynnwys unigolyn ac yn defnyddio'r dull 'Beth sy'n Bwysig'. s.126 Dylai ymholiadau adran 126 gael eu cwblhau o fewn y cyfnod y cytunwyd arno gyda'r rheolwr diogelu, fel arfer o fewn 7 diwrnod i'r adeg mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn derbyn yr atgyfeiriad. Fodd bynnag, pan mae angen, gellir cytuno ar gyfnodau hirach. Y flaenoriaeth fydd diogelwch yr oedolyn mewn perygl. Os yw'r ymholiadau adran 126 yn cymryd mwy o amser na'r cyfnod dynodedig, bydd yr ymarferydd arweiniol yn rhoi gwybod i'r Swyddogion Cefnogi Diogelwch yn y Tîm Diogelu Oedolion.

Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu

Cofnodwch ymholiadau adran 126 ar y Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu.⁶ Mae hyn yn cynnwys barn a dymuniadau'r unigolyn. Bydd yr ymholiadau diogelu'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

⁵ Mae canllawiau ar drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth i'w cael yn nes ymlaen yn y gweithdrefnau.

⁶ Gweler Atodiad 2 – canllaw i ffactorau i gael eu hystyried wrth wneud ymholiadau diogelu.

Ar ôl cwblhau'r Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu, bydd yr ymarferydd arweiniol yn ei dychwelyd at y Tîm Diogelu Oedolion ar gyfeiriad e-bost ast@wrexham.gov.uk.⁷

Monitro ymholiadau adran 126

Mae Swyddogion Cefnogi Diogelu'n monitro sut mae ymholiadau adran 126 yn cael eu cwblhau fel a ganlyn.

- Cadw rhestr o ymholiadau adran 126
- Dyddiadau terfyn i ymarferwyr arweiniol gwblhau ymholiadau ar restr ymholiadau ddynodedig
- Monitro Ffurflenni Ymholiadau a Phenderfynu cyflawn sy'n cael eu derbyn, cysylltu â'r ymarferydd arweiniol a chofnodi terfyn amser disgwylidig i'w gwblhau os na dderbynnir y Ffurflen Ymholiadau a Phenderfynu ar y dyddiad terfyn
- Cysylltu â'r ymarferydd arweiniol i fynd ar ôl Ffurflenni Ymholiadau a Phenderfynu sy'n hwyr

Os nad yw'r Ffurflen Ymholiadau a Phenderfynu'n cael ei chwblhau erbyn y dyddiad terfyn, bydd y Swyddog Cefnogi Diogelu'n cofnodi'r rheswm mewn nodyn achos gyda dyddiad cwblhau newydd, yn diweddarau'r rhestr o ymholiadau adran 126 ac yn uwchgyfeirio at y rheolwr diogelu.

Amddiffyn ar unwaith

Dylai ymarferwyr arweiniol gymryd camau ar unwaith os oes angen amddiffyn unigolyn ar unwaith. Os nad yw hyn yn bosib, rhaid i'r ymarferydd arweiniol uwchgyfeirio'r achos; dylai hyn hefyd gael ei wneud ar lafar i reolwr o ba bynnag lefel sydd ar gael i ymateb.

Os nad yw'n gallu trefnu i amddiffyn yr unigolyn ar unwaith, dylai'r ymarferydd arweiniol ddweud wrth y rheolwr arweiniol a fydd, os oes angen, yn galw cyfarfod strategaeth brys.

Anghenion gofal a chymorth eraill

Os daw i'r amlwg yn ystod ymholiadau adran 126 bod anghenion ar wahân i rai diogelu, dylai'r ymarferydd arweiniol ystyried a ddylid gwneud atgyfeiriad ar wahân dan Ran 3⁸ os yw'r anghenion yn rhai brys. Os nad yw'r anghenion yn rhai brys, dylai'r ymarferydd arweiniol nodi hyn ar y Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu ar gyfer camau yn dilyn ymholiadau diogelu.

Penderfynu pa gamau sydd eu hangen i wneud unigolyn yn ddiogel

⁷ DS – Nid oes modd i'r Tîm Diogelu Oedolion dderbyn copïau union o ddogfennau.

⁸ Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y rheolwr diogelu sy'n gyfrifol am bennu a oes angen gweithredu yn dilyn ymholiadau adran 126 ac os oes, p'un a oes angen trafodaeth neu gyfarfod strategaeth i gytuno a fydd y camau hyn yn cael eu rhoi ar waith, beth fyddant a phwy neu ba asiantaeth fydd yn eu rhoi ar waith.⁹ Cofnodwch y camau gweithredu yn y cynllun gofal a chymorth (gweler isod).

Trafodaeth neu gyfarfod strategaeth

Mae trafodaeth neu gyfarfod strategaeth yn ddull ymarferol o ymgysylltu ag unigolion ac asiantaethau eraill i bennu pa gamau maent yn fodlon eu cymryd i wneud oedolyn mewn perygl yn ddiogel.

Dylai'r cyfarfod strategaeth gytuno ar faterion fel y rhai canlynol.

- Y pryder neu'r cyhuddiadau yr ymdrinnir â nhw
- Camau i gael eu cymryd gan bob asiantaeth, e.e.
 - Ymholiadau pellach
 - Ymchwiliad troseddol
 - Ymchwiliad iechyd
 - Cyhuddiadau neu bryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swydd gyfrifol
 - Archwiliad rheoleiddio
- Cymorth cyfranogi ac angen cyfathrebu'r oedolyn mewn perygl
- Cymorth cyfranogi ac angen cyfathrebu'r unigolyn neu'r sefydliad y tybir eu bod wedi achosi cam-driniaeth neu esgeulustod
- Cynlluniau rheoli risg
- Dyddiadau y cytunwyd arnynt i adrodd ar gwblhau camau ac unrhyw gamau nesaf¹⁰

Fel arfer, bydd y drafodaeth neu'r cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal o fewn 8 diwrnod o gwblhau ymholiadau adran 126.

Os oes angen, cynhaliwch drafodaeth neu gyfarfod strategaeth brys i wneud trefniadau amddiffyn ar unwaith.

Fel arfer, byddai'r Tîm Diogelu Oedolion yn cadeirio cyfarfod strategaeth ond gall asiantaeth arall gadeirio os oes ganddi arbenigedd neu brofiad proffesiynol mwy priodol.

Cynllun gofal a chymorth

Mae'r cynllun gofal a chymorth yn nodi'r camau gweithredu i fynd i'r afael â deilliannau diogelu'r unigolyn.¹¹ Gall y rhain gynnwys camau fel y canlynol.¹²

⁹ DS – er bod adran 126 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud ymholiadau i benderfynu a oes angen camau i wneud unigolyn yn ddiogel, beth ddylai'r camau hynny fod a phwy ddylai eu cymryd, nid oes pŵer i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu asiantaethau eraill gymryd camau o'r fath.

¹⁰ Gweler paragraff 131 Trin Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion Mewn Perygl⁷.

¹¹ Adran 3(3) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 – *'Pan fo ymholiadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 126(1) o'r Ddeddf (oedolion sy'n wynebu risg), rhaid i'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn sy'n destun yr ymholiadau hynny gynnwys cofnod o ganlyniad yr ymholiadau.'*

¹² Paragraff 66 Trin Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion Mewn Perygl (gweler yr ôl-nodion).

- Camau a gymerwyd i sicrhau diogelwch yr unigolyn
- Darparu gwasanaethau, triniaeth neu therapi
- Darparu gwasanaeth eiriolaeth
- Addasiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu
- Ysgrifennu cynllun rheoli risg
- Cefnogi'r oedolyn mewn perygl drwy gamau i geisio cyfiawnder neu iawn am rywbeth

Lle bo angen, cytunwch ar y camau hyn gydag unigolion neu asiantaethau eraill trwy drafodaeth neu gyfarfod strategaeth.

Cynhadledd amddiffyn oedolion

Pwrpas cynhadledd achos diogelu yw rhoi gwybod i'r unigolyn am ganlyniad yr ymholiadau adran 126. Fel arfer, bydd yr ymarferydd arweiniol yn gwneud hyn drwy alwad ffôn, ymweliad â'r cartref neu gyfarfod, gan ddibynnu ar nifer yr asiantaethau a fydd ynghlwm, cymhlethdod yr achos ac amgylchiadau'r oedolyn mewn perygl.

Adolygiadau

Bydd y tîm tymor hir priodol yn adolygu'r cynllun gofal a chymorth yn ôl y weithdrefn adolygu. Bydd amllder yr adolygiad yn unol â'r lefel o risg.

Cau achos

Wrth i achos ddod i ben, y rheolwr diogelu fydd yn gyfrifol am gau'r achos hwnnw.

Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolyn¹³

Pwrpas Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolyn

Galluogi swyddog awdurdodedig i wneud y canlynol.

- Siarad yn breifat â'r oedolyn y tybir ei fod/bod mewn perygl gydag unrhyw unigolyn sydd gyda'r swyddog awdurdodedig
- Pennu a yw'r unigolyn yn gwneud penderfyniadau ar ei liwt ei hun
- Gwneud ymholiadau diogelu

Pryd i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn

Os oes angen siarad ag oedolyn y tybir ei fod/bod mewn perygl yn breifat i bennu a yw'n cael rhwydd hynt i wneud penderfyniadau neu i wneud ymholiadau diogelu, ond nad oes modd trwy unrhyw ddull arall ac na fydd arfer y pŵer i fynd ar safle sy'n cael ei roi gan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo'n rhoi'r unigolyn mewn mwy o berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

¹³ Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Swyddog awdurdodedig

Dim ond swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol sy'n gallu gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn. Wrth gymryd y rôl, bydd y swyddog yn gweithredu fel gweithiwr proffesiynol annibynnol.

Os nad oes swyddog awdurdodedig ar gael

Gall swyddog awdurdodedig awdurdod lleol arall yn ardal yr un bwrdd diogelu neu, os nad yw hynny'n bosib, awdurdod lleol yng Nghymru, wneud y cais.

Sut i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn

Fel arfer, bydd swyddog awdurdodedig yn galw cyfarfod strategaeth i gydlynu'r cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn. Bydd hyn yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i drafod gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill a phennu'r canlynol:

- A oes sail i amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl?
- Ystyried a bod yn sicr nad yw ffyrdd eraill o siarad â'r unigolyn yn breifat ar gael.
- Ystyried risgiau defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn a bod mesurau lliniaru effeithiol ar waith lle bo modd a bod defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yn angenrheidiol ac yn gymesur.
- Bod gweithwyr proffesiynol angenrheidiol ar gael i wneud ymholiadau adran 126 effeithiol a chynnal asesiadau risg ac asesiadau eraill sy'n angenrheidiol pan mae'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yn cael ei ddefnyddio.
- Bod gwasanaethau angenrheidiol ar gael i'w rhoi ar waith ar ôl defnyddio'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn.

Camau eraill sy'n dilyn ymholiadau diogelu

Gall ystod o gamau ddilyn ymholiad neu gael eu cymryd i gyd-fynd ag o, fel y rhai a ganlyn, er enghraifft.

- Ymchwiliadau troseddol
- Ymchwiliad i gŵyn
- Uwchgyfeirio pryderon
- Ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol ac anffodus
- Cyhuddiadau neu bryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swyddi cyfrifol

Dylai'r rhain gael eu cydlynu gyda'r ymholiadau adran 126 a'r cyfarfod strategaeth yn ystod y broses ddiogelu. Fodd bynnag, bydd yr ymchwiliadau hyn, neu weithdrefnau eraill, yn cael eu cynnal gan asiantaethau sy'n atebol i'w polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain a byddant y tu hwnt i'r ymholiadau diogelu.

Gwrthod cynllun gofal a chymorth – gallu meddyliol ac uwchgyfeirio

Cydnabod hawl yr unigolyn i wrthod cynllun gofal a chymorth

Gall yr unigolyn ddewis derbyn risg bosib' a gwrthod cynllun gofal a chymorth. Cofnodwch hyn ar y Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu. Nodwch y trefniadau diogelu a gynigir a'r gwaith a wneir i ddeall y rhesymau dros beidio â derbyn cymorth.

Unigolyn gyda diffyg gallu meddyliol

Os tybir bod diffyg gallu meddyliol gan yr unigolyn, dilynwch y weithdrefn gallu meddyliol a gellir gwneud penderfyniad er lles yr unigolyn os yw hynny'n briodol.

Diogelwch a lles unigolion eraill

Ystyriwch ddiogelwch a lles eraill, e.e. pobl sy'n byw yn yr un cartref teuluol, yn yr un amgylchedd gofal neu aelodau o'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Gall hyn arwain at gamau eraill y tu hwnt i gynllun amddiffyn ar gyfer yr unigolyn, e.e. Uwchgyfeirio Pryderon.

Gorfodaeth a rheolaeth

Wrth ymdrin ag oedolyn mewn perygl sy'n gwrthod cynllun amddiffyn gofal a chymorth, cofiwch y gall yr unigolyn fod yn destun gorfodaeth a rheolaeth, yn enwedig mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Uwchgyfeirio

Uwchgyfeiriwch achosion lle mae'r unigolyn yn gwrthod cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Camdriniwr honedig gyda diffyg gallu meddyliol

Os nad oes gan unigolyn sy'n cael ei gyhuddo o gam-drin y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau penodol, dylid cyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol i gefnogi a chynrychioli'r unigolyn hwnnw.¹⁴

Ansawdd ac archwilio

Mae cyfrifoldeb dros ansawdd yr ymholiadau adran 126 a thros gwblhau'r Ffurflen Ymholiadau, Gwerthuso a Phenderfynu yn ddigonol ac amserol ar ysgwyddau'r ymarferydd arweiniol.

Y rheolwr diogelu fydd yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd yr achos diogelu a chau'r achos.

¹⁴ Mae gan gyrrff cyfrifol bwerau i gyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol dan Reoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol) (Cymru) 2007

Bydd Rheolwr y Tîm Diogelu Oedolion yn cynnal archwiliadau ffeil misol o sampl o achosion i sicrhau ansawdd. Bydd adborth yn cael ei roi i reolwyr diogelu neu ymarferwyr arweiniol ar faterion yn ymwneud ag ansawdd trwy arolygiaeth rheolwr, goruchwyliaeth neu weithdai Diogelu Oedolion fel sy'n briodol.

Uwchgyfeirio materion i reolwyr

Os nad yw staff yn gallu symud ymlaen ag achos, mae angen ei uwchgyfeirio heb oedi. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y dylai achos gael ei uwchgyfeirio.

- Canlyniad yr ymholiadau adran 126 yw nad yw unigolyn yn ddiogel neu nad oes posibil' ei ddiogelu/diogelu neu ei fod o neu hi'n gwrthod cynllun amddiffyn gofal a chymorth
- Adroddiadau diogelu anghyflawn neu annigonol gan bartner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd er gwaethaf ceisiadau am well gwybodaeth
- Partner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd yn gwrthod neu'n methu â gwneud adroddiad diogelu neu wneud ymholiadau adran 126 pan ofynnir am hynny.
- Partner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd ddim ar gael neu ddim yn ymateb wrth wneud ymholiadau adran 126 neu gynnal cyfarfod strategaeth gan arwain at gorei'r terfyn amser o 7 diwrnod
- Ail achos o oedi wrth adrodd canlyniadau'r ymholiad diogelu
- Partner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd yn gwrthod cyfrannu'n briodol at ymholiadau diogelu
- Partner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd yn gwrthod cyfrannu'n briodol at gynllun gofal a chymorth neu lwybr amgen fel canlyniad i ymholiad neu ymchwiliad
- Derbyn cwyn yn ystod y broses ddiogelu

Hefyd, os bydd y canlynol wedi digwydd

- Camddefnyddio adroddiadau diogelu, e.e. mewn achosion lle mae anghytundeb proffesiynol neu farn y dylid ei reoli mewn modd arall, e.e. cyfarfod gweithwyr proffesiynol
- Atgyfeiriadau amhriodol cyson gan bartner perthnasol neu wasanaeth a gomisiynwyd

Uwchgyfeirir at reolwyr fel a ganlyn.

- Rheolwr Cynorthwyol y Tîm Diogelu Oedolion
- Rheolwr y Tîm Diogelu Oedolion
- Pennaeth Gwasanaeth Diogelu ac Iechyd Meddwl
- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol

Os nad yw cefnogaeth lefel o reolwyr yn gallu datrys y mater, mae angen ei uwchgyfeirio i'r lefel nesaf.

Dylid codi materion lefel is neu faterion o bryder nad oes angen eu datrys ar frys, e.e. eglurhad dros faterion ymarfer nad ydynt yn rhai brys, yng Ngweithdy Rheolwyr Diogelu Oedolion.

Cwynion

Rheolwch gwynion am ymddygiad staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion neu sut mae'r broses ddiogelu'n gweithredu trwy weithdrefn gwynion Gofal Cymdeithasol Wreccsam.

Rheoli cwynion am gamau gweithredu asiantaeth arall trwy weithdrefn gwynion yr asiantaeth honno.

Gall ymchwiliad i gwynion am ymddygiad neu sut mae'r broses ddiogelu'n cael ei gweithredu gael ei gynnal yn ystod y broses ddiogelu. Fodd bynnag, er bod yr adran yn blaenoriaethu ei dyletswydd i ymchwilio i gwynion, mae'n cydnabod y gall cwynion amhriodol gael eu gwneud a'i bod yn rhaid iddynt beidio ag oedi'r broses ddiogelu. Oherwydd hyn, ni fydd y broses ddiogelu'n dod i stop yn awtomatig ac ni fydd newidiadau i bersonél sy'n cyflawni dyletswyddau.

Gwelliant parhaus

Fframwaith gwella Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Er mwyn gwella arfer diogelu'n barhaus, mae gan yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion fframwaith gwella ar gyfer diogelu oedolion sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Diogelu Oedolion a Gweithdai Diogelu Oedolion.

Bydd y Gweithdai Diogelu Oedolion yn codi a rhannu materion yn ymwneud ag ansawdd ac ymarfer ac yn sicrhau bod unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth o archwiliadau, adolygiadau ymarfer oedolion neu ffynonellau eraill.

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Oedolion yn cael ei ddefnyddio i gofnodi a monitro gwelliannau sy'n cael eu nodi yn y Gweithdai Diogelu Oedolion.

Rheolwr y Tîm Diogelu Oedolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun gweithredu ac am gadeirio'r gweithdai gyda chymorth Rheolwr Datblygu Ymarfer Diogelu.

Bydd y Gweithdrefnau Diogelu Oedolion yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac yn ôl yr angen ar ôl Gweithdai Diogelu Oedolion.

Bydd yr adolygiad hyn o'r gweithdrefnau'n seiliedig ar eu cyd-gynhyrchu drwy'r Grŵp Cyd-gynhyrchu Diogelu Oedolion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector, y sector annibynnol ac ar ran defnyddwyr gwasanaeth.

Grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Sir y Fflint a Wreccsam

Mewn rhai achosion, gall Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu argymhell Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn hytrach nag Adolygiad Ymarfer Oedolion (gweler isod).

Cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion Wreccsam ar y Grŵp Cyflawni Ymarfer Lleol yw Pennaeth Gwasanaeth Diogelu ac Iechyd Meddwl.

Adolygiad Ymarfer Oedolion^{15,16}

Atgyfeiriwch achosion lle mae oedolyn mewn perygl yn dioddef amhariad difrifol a pharhaol ar eu hiechyd, anaf sy'n peryglu eu bywyd neu'n marw i gael Adolygiad Ymarfer Oedolion.

Y rheolwr diogelu sy'n gyfrifol am hyn yn dilyn trafodaeth neu gyfarfod strategaeth ac mae'n cofnodi hyn fel canlyniad i'r ymholiadau diogelu.

Uwchgyfeiriwch atgyfeiriad yr Adolygiad Ymarfer Oedolion i Reolwr y Tîm Diogelu Oedolion a'r Pennaeth Gwasanaeth.

Gwnewch yr atgyfeiriad i Reolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gan ddefnyddio'r *Atgyfeiriad i Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion BDOGC i ystyried cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion* a'i e-bostio at *Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu*.

Defnyddiwch y dynodwr rhanbarthol a gyhoeddwyd gan Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu ar gyfer yr holl ohebiaeth arall ynghlwm â'r achos.

Is-grŵp Rhanbarthol Adolygiadau Ymarfer Oedolion

Mae Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn goruchwyllo ac yn sicrhau ansawdd Adolygiadau Ymarfer Oedolion sy'n cael eu gwneud gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion Wrecsam ar yr is-grŵp yw Pennaeth Gwasanaeth Ymateb Cychwynnol ac Iechyd Meddwl.

Cyhuddiadau a phryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swydd gyfrifol

Pan mae adroddiad adran 130 yn cynnwys cyhuddiad neu bryder am ymarferydd neu unigolyn mewn swydd gyfrifol ynghlwm ag oedolyn mewn perygl, bydd gweithdrefn *Cyhuddiadau a phryderon am ymarferwyr a rhai sydd mewn swydd gyfrifol Wrecsam* yn cael ei dilyn ochr yn ochr â'r Gweithdrefnau Diogelu Oedolion. Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn ym mholisi *Pryderon proffesiynol Wrecsam – cyhuddiadau a phryderon am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swydd gyfrifol*.

¹⁵ [Protocol Adolygiadau Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru](#)

¹⁶ [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion](#)

Atodiad 1 – Cefndir y polisi

Deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Bwriad Gweithdrefnau Diogelu Cymru yw arwain ymarfer diogelu a helpu ymarferwyr i weithredu deddfwriaeth a chanllawiau.

Dyletswyddau Statudol

Rhaid i bartneriaid y Bwrdd Diogelu roi ystyriaeth i swyddogaethau a gweithdrefnau'r Bwrdd i gyflawni eu cyfrifoldeb dan adran 139(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod y bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Amlinellir swyddogaethau'r Byrddau Diogelu'n ffurfiol yn rheoliad 3 Rheoliadau'r Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Dyletswydd i ymholi

Mae Adran 126(2) yn y Ddeddf yn dweud "Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswyllo fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo:-

- gwneud unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a

- penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath

Hanfodion ymholiadau diogelu

- Achos rhesymol i amau
- Gwneud ymholiadau diogelu
- Cofnodi canlyniad yr ymholiadau diogelu

Egwyddorion Cyffredinol

Systemau diogelu effeithiol yw'r rhai lle

- Rydym yn gwybod beth yw canlyniadau personol yr unigolyn ac maent yn gallu eu cyfathrebu'n effeithiol
- Rhoddir anghenion yr unigolyn yn gyntaf, fel bod yr oedolyn yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt cyn i'r broblem waethygu
- Mae pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl wedi eu hyfforddi ac yn effro i'w anghenion gan gynnwys unrhyw gamdriniaeth bosib' neu gamdriniaeth a amheuir neu berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod
- Mae pob gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth briodol mewn modd amserol, ac mae ganddynt fynediad uniongyrchol at gyngor i drafod unrhyw bryderon am unigolyn
- Mae pob gweithwyr proffesiynol yn gallu defnyddio eu barn arbenigol i roi anghenion a chanlyniadau personol yr unigolyn wrth wraidd y system fel bod modd canfod yr ateb cywir iddynt
- Mae pob gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ffordd amlasiantaethol a chydweithredol i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolyn mewn perygl ac adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn canlyniadau a amlinellir mewn cynlluniau gofal a chymorth

Dull cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Dylai dwy egwyddor allweddol fod yn sail i drefniadau diogelu effeithiol ym mhob maes diogelu.

- Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb; i drefniadau diogelu fod yn effeithiol, rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad chwarae rhan lawn

- Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; er mwyn i drefniadau diogelu fod yn effeithiol dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau personol a'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn

Ni all unrhyw weithiwr proffesiynol unigol gael darlun llawn o unigolyn na'u teulu ac mae'r gallu i weithio ar draws asiantaethau yn hanfodol i fagu gwell dealltwriaeth o amgylchiadau'r oedolyn mewn perygl a'u hangen am ofal a chymorth. Gall perthnasau gwaith cadarn a gweithio gan ddefnyddio dull amlasiantaeth atal anghenion rhag cynyddu a nodi pan mae oedolyn neu aelod o'r teulu mewn perygl.

Dylai partneriaid perthnasol (adran 162(4) Deddf 2014) ddeall eu dyletswydd statudol i atgyfeirio at yr awdurdod lleol lle mae achos rhesymol i amau fod oedolyn mewn perygl.

I sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dylai unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gydag oedolyn mewn perygl ar fater diogelu wneud y canlynol.

- Gweld a siarad gyda nhw
- Gwrando ar yr hyn maent yn ei ddweud a deall eu canlyniadau personol
- Cymryd eu barn, dymuniadau a theimladau o ddifrif
- Gweithio mewn partneriaeth gyda nhw wrth bennu sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth
- Cymryd camau i hwyluso gallu'r person i gymryd rhan boed drwy gymorth cyfathrebu neu eiriolaeth

Er y dylai ymarferwyr geisio trafod unrhyw bryderon gyda'r unigolyn dan sylw a, lle bo modd, gofyn am eu cytundeb i roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Wreccsam am bryderon, dylid ond gwneud hyn lle na fydd yn rhoi'r unigolyn neu eraill mewn mwy o berygl o niwed.

Eiriolaeth

Mae'r cod ymarfer ar eiriolaeth dan Ran 10 y Ddeddf yn amlinellu'r swyddogaethau mewn perthynas â pha awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, sy'n gorfod dod i benderfyniad ar y modd y gallai eiriolaeth gefnogi penderfynu ar a chyflawni canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan mae'n rhaid i awdurdod lleol drefnu eiriolydd proffesiynol annibynnol. Rhaid i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod

penderfyniadau am yr angen am eiriolaeth yn ganolog i'r dyletswyddau perthnasol dan y canllawiau statudol hyn.

Penderfyniadau Deallus Gyda Chefnogaeth

Dylai camau diogelu rymuso'r oedolyn gymaint â phosib' i wneud dewisiadau a datblygu eu gallu eu hunain i ymateb iddynt. Dylid cydbwysu hawliau i ddiogelwch gyda hawliau eraill, fel yr hawl i ryddid ac ymreolaeth, a hawl i fywyd teuluol. Efallai y bydd oedolion mewn perygl, boed ganddynt y gallu meddyliol ai peidio, yn dymuno cael cymorth ymwthiol, fel rhwystro person o'u cartref, neu i berson ddod o flaen ei well. Efallai y byddant yn dymuno cael eu helpu mewn dulliau llai ymwthiol, fel drwy ddarparu cyngor ar y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael iddynt a risgiau a manteision y gwahanol opsiynau hyn.

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw ymyrraeth ynghylch perthnasau teuluol neu bersonol. Rhaid i'r dull a ddefnyddir ystyried sut i gefnogi'r oedolyn i gael y cyfle i ddatblygu, neu gynnal, bywyd preifat sy'n cynnwys y bobl hynny y mae'r oedolyn mewn perygl yn dymuno sefydlu, datblygu neu barhau mewn perthynas â nhw. Er nad yw perthnasoedd treisgar fyth yn cyfrannu at les oedolyn, gallai ymyrraethau sy'n diddymu pob cyswllt gydag aelodau o'r teulu gael eu profi fel ymyrraeth dreisgar ac mae perygl y bydd yn mynd yn groes i'r hawl i fywyd teuluol os nad oes cyfiawnhad drostynt neu eu bod yn anghymesur.

Gorchmynion Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion (APSO)

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer APSO yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch ceisio, gwneud a gorfodi APSO.

Dylid defnyddio APSO i alluogi "swyddog awdurdodedig", ac unrhyw berson arall a nodir yn y gorchmyn, i siarad ag oedolyn yr amheuir sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn breifat, i bennu a oes gan yr oedolyn rwydd hynt i wneud penderfyniadau, i asesu a yw'r person yn oedolyn mewn perygl ac i bennu a ddylid cymryd unrhyw gamau.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Dylai pob ystyriaeth a phenderfyniad diogelu gynnwys ystyriaeth i ofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chod Ymarfer y Ddeddf.

Mae Pennod 14 yn amlinellu "Pa ddulliau amddiffyn sy'n bodoli i bobl gyda diffyg gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain".

Mae Cod Ymarfer (ar gyfer Cymru, diwygiwyd 2016) Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn nodi ym Mhennod 13: Y berthynas rhwng y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Gofynion y Gymraeg

Rhaid i'r broses ddiogelu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor o gynnig gweithredol yn rhan annatod o'r ymarfer. Dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo neu ganddi ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain drwy gydol y broses o nodi a diwallu anghenion gofal a chymorth.

Mae iaith yn elfen greiddiol o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn ac mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol.

Dylai awdurdodau lleol wneud yn siŵr fod gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu a bod gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn (Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau yn y Gymraeg mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol Wreccsam a Gofal Cymdeithasol (Mwy Na Geiriau)).

Rhannu Gwybodaeth

Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin. Mae'r ddau'n caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio fel rheswm dros beidio a gwneud hynny. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb ganiatâd lle mae gofyniad cyfreithiol neu fod y gweithiwr proffesiynol yn ystyried ei bod er lles y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.

Cyfrinachedd a Chydsyniad

Mae dyletswydd cyfrinachedd ar weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn bwysig wrth gynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau. Serch hynny, nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei thorri lle bo hyn er lles pennaf yr unigolyn, neu er lles y cyhoedd yn fwy cyffredinol.

Yn eu gwaith gyda phobl, dylai gweithwyr proffesiynol bob amser geisio bod yn dryloyw mewn perthynas â'r amgylchiadau lle gallai fod angen iddynt rannu gwybodaeth gyda Gofal Cymdeithasol Wreccsam neu'r heddlu.

Ni ddylai anawsterau o ran gweithio o fewn yr egwyddor o gynnal cyfrinachedd oedolyn arwain at fethu â gweithredu i ddiogelu'r oedolyn neu eraill rhag camdriniaeth neu niwed.

Chwythu'r chwiban a rhannu pryderon

Dylai fod gan bob sefydliad sy'n gweithio gydag oedolion weithdrefnau clir o ran chwythu'r chwiban a rhannu pryderon a dylai'r holl staff ddeall y weithdrefn dros wneud atgyfeiriad am y sefydliad neu aelod arall staff.

Mae dyletswydd ar yr holl staff ac ymarferwyr i fod yn ymwybodol y gallant gysylltu â Gofal Cymdeithasol Wreccsam neu'r heddlu, yn annibynnol, i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch camdriniaeth, esgeulustod neu niwed ac y dylent bob amser wneud hynny os

- Oes ganddynt bryderon y gallai eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu'r perchennog fod yn gysylltiedig â nhw
- Oes ganddynt bryderon na fydd eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu'r perchennog yn cymryd y mater o ddifrif ac/neu ymddwyn yn briodol i ddiogelu'r oedolyn
- Oes ofn bygythiadau arnynt ac/neu os oes ganddynt bryderon uniongyrchol am eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch y defnyddwyr gwasanaethau.

Gwasanaethau Hygyrch

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth dan Ran 28 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn hygyrch i unigolion a gweithwyr proffesiynol fel y gallant ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn gyflym ac yn rhwydd. Dylai unrhyw un sydd â phryderon bod oedolyn mewn perygl allu ceisio cymorth a gwneud atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Wreccsam heb oedi drwy'r gwasanaeth hwn.

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae gan y cyhoedd ran hanfodol wrth ddiogelu oedolion drwy sylwi ar gamdriniaeth a'i hatal. Mae cyfrifoldeb ar bob asiantaeth a sefydliad i sicrhau

bod lefel dda o ymwybyddiaeth cyhoeddus o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed a sut y gellir ac y dylid rhoi gwybod am bryderon. Dylai fod gan bob partner ystod o wybodaeth gyfredol a dylai trefniadau clir fod ar waith i sicrhau bod pobl yn gwybod:

Atodiad 2 – Gwybodaeth a ffactorau wrth wneud ymholiadau diogelu

Gwybodaeth i gael ei chasglu wrth wneud ymholiadau diogelu

- Pwy oedd yr unigolyn a nododd y pryderon
- Pwy oedd yr unigolyn a wnaeth y penderfyniad i ddechrau'r ymholiad
- Pwy yw'r unigolyn y mae'r ymholiadau diogelu'n ymwneud ag o neu hi a'u manylion perthnasol
- Crynodeb o'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r 'achos rhesymol i amau'
- Pwy oedd yr unigolyn neu'r unigolion a gynhaliodd yr ymholiadau diogelu, a'r asiantaeth, os yw'n berthnasol
- Cronoleg yr ymholiadau diogelu
- Rhestr o bobl a ddarparodd wybodaeth yn ystod yr ymholiadau diogelu
- Rhestr o bobl a gafodd gyfweiliad yn ystod yr ymholiadau diogelu
- Rhestr o dystiolaeth ddogfennol a adolygwyd yn ystod yr ymholiadau diogelu
- Datganiad bod y rhai hynny sy'n gwneud yr ymholiadau adran 126 yn ystyried bod y person yn oedolyn mewn perygl neu ddim. O ddeall nad yw'r unigolyn yn oedolyn mewn perygl, dylid cynnwys datganiad yn nodi pam y daethpwyd i'r casgliad hwn

Ffactorau i'w hystyried wrth wneud ymholiadau diogelu

- Hawl y sawl y credir eu bod yn oedolyn mewn perygl i wrthod cymryd rhan. Nid yw gwrthod cymryd rhan yn rhyddhau'r awdurdod lleol yn awtomatig o'i ddyletswydd, ond gallai leihau effeithiolrwydd yr ymholiad.

- Bydd natur barhaus y ddyletswydd yn cynorthwyo gydag ymholiadau adran 126 lle mae gorfodaeth a dylanwad gormodol
- Canlyniadau personol, dymuniadau a theimladau oedolyn mewn perygl
- Y posibilrwydd nad yw'r oedolyn y credir sydd mewn perygl yn rhydd i wneud penderfyniadau
- A oes angen cynnwys eiriolwr
- Yr angen i gynnal yr ymholiad yn sensitif a gyda chyn lleied o boen meddwl a phosib' i'r unigolyn ac eraill (er enghraifft, gofalwyr ac aelodau'r teulu)
- A oes gan y camdriniwr honedig unrhyw anghenion gofal a chefnogaeth
- A yw'r camdriniwr honedig yn darparu gofal neu gymorth i oedolyn mewn perygl arall neu blentyn a allai fod mewn perygl
- Yr angen i'r awdurdod lleol weithio'n agos gyda, a chynnwys, asiantaethau eraill a allai gynorthwyo gyda'r ymholiadau adran 126 a chyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer yr ymholiadau diogelu
- Yr angen i fod yn ymwybodol o lygru unrhyw dystiolaeth a allai gael ei defnyddio mewn unrhyw ymchwiliad troseddol rŵan neu yn y dyfodol
- Pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ymholiadau adran 126 yn gymesur ac yn cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac adrannau 2, 5, 6 a 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gallu meddyliol yr oedolyn mewn perygl i wneud penderfyniadau penodol os oes lle i amau bod nam neu amhariad ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Atodiad 3 – diffiniad Partner Perthnasol

- Y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal yr heddlu lle mae unrhyw ran o'r ardal honno o fewn ardal yr awdurdod lleol
- Unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol i gydweithredu â nhw dan yr adran hon

- Yr ysgrifennydd gwladol i'r graddau bod yr ysgrifennydd gwladol yn cyflawni swyddogaethau dan adrannau 2 a 3 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru
- Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sy'n ofynnol dan drefniadau yn adran 3(2) Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 i weithredu fel partner perthnasol yr awdurdod
- Bwrdd iechyd lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod
- Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod
- Gweinidogion Cymru i'r graddau eu bod yn cyflawni swyddogaethau dan adran 2 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Unrhyw berson, neu berson o'r fath ddisgrifiad, y mae'r rheoliadau yn nodi

(Adran 162(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)